# Y CABINET DYDD MAWRTH, 03 HYDREF 2017

## Yn bresennol-

Y Cynghorwyr: Dyfrig L. Siencyn, Mair Rowlands, Craig ab Iago, Gareth Griffith, Peredur Jenkins, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, W. Gareth Roberts, Gareth Thomas ac Ioan Thomas

## Hefyd yn bresennol-

Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol) ac Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau)

| | |
|---|---|
| Eitem 6: | Aled Davies (Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant) |
| Eitem 7: | Sioned Williams (Pennaeth Economi a Chymuned), Ian Jones (Uwch Reolwr Cefnogaeth Gorfforaethol) Robin Evans (Rheolwr Pŵl Prosiectau) |
| Eitem 8: | Dewi W Jones (Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor) |
| Eitem 9: | Geraint Owen (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol), (Eleri Williams Rheolwr Gwybodaeth a Gwasanaethau ar y Wefan) |
| Eitem 10: | Garem Jackson (Pennaeth Addysg dros dro), Owen Owens (Uwch Reolwr Ysgolion) |
| Eitem 13: | Dafydd Wyn Williams (Pennaeth Amgylchedd), Diane Jones (Swyddog Addysg) |

## 1. YMDDIHEURIADAU

Dim i'w nodi

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw faterion brys.

## 4. MATERION YN CODI O DROS OLWG A CHRAFFU

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o drosolwg a chraffu.

## 5. COFNODION O GYFARFOD 5.09.17 a 12.9.17

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar y 5ed o Fedi a'r 12fed o Fedi 2017, fel rhai cywir.

## 6. ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET TAI, DIWYLLIANT A HAMDDEN

Cyflwynwyd yr eitem gan Cyng. Craig ab Iago

**PENDERFYNWYD**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad

**TRAFODAETH**

Amlygwyd mai pwrpas yr adroddiad oedd cyflwyno gwybodaeth gyfredol ar yr hyn oedd wedi ei gyflawni yn y maes gan amlinellu'r diweddaraf ar y materion hynny oedd yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Strategol, y mesurau perfformiad a'r diweddaraf o ran cynllun arbedion a thoriadau.

Nododd yr Aelod Cabinet ei fod yn aelod newydd i'r Cabinet ac wedi bod yn brysur yn ymgyfarwyddo ei hun gyda gwaith y gwasanaethau. Mynegwyd bod nifer o'r gwasanaethau yn mynd drwy gyfnod o newid ac ailfodelu ond ei fod yn gyffredinol, yn hapus gyda'r perfformiad. Roedd yn awyddus i weld y gwasanaethau yn parhau i lwyddo er gwaethaf yr holl heriau fydd yn eu hwynebu yn y dyfodol agos. Ategwyd mai ei flaenoriaeth am y cyfnod nesaf fydd sicrhau cydweithio trawsadrannol er mwyn mynd i'r afael a thlodi ac amddifadedd.

Tynnwyd sylw at brosiect strategol 'Cydymdrechu yn erbyn Tlodi' a nodwyd bod gwaith da wedi ei wneud i gynnal digwyddiadau 'Call efo'r Geiniog' ar draws y Sir fel modd i drigolion Gwynedd gael gwybodaeth am sut i gael y gorau o'u harian.

Amlygwyd pryder mewn newidiadau yn y maes lles a budd-daliadau a'r newid i'r Credyd Cynhwysol (gweithredol o Ebrill 2018) fydd yn debygol o effeithio oddeutu 300+ aelwyd yn y Sir. Adroddwyd bod sesiynau wedi eu trefnu ar gyfer staff rheng flaen i rannu gwybodaeth a pharatoi ar gyfer yr addasiadau hyn.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth:

- A yw cyfrifoldebau newydd o fewn Deddfwriaeth Digartrefedd yn rhoi baich ychwanegol ar amser staff i gadw cofnodion manwl o'r broses asesu yn ychwanegu gwerth i'r gwasanaeth?
- Nad yw perfformiad Grant Cyfleusterau i'r Anabl yn ddigonol (er yr ystyriaeth sydd yn cael ei roi i gyfnodau trefnu a chodi estyniadau).
- Yng nghyd–destun Credwyd Cynhwysol awgrymwyd y dylid amlygu'r pryderon i'r Aelodau Seneddol Lleol gan y gall trefniadau gweinyddu'r credyd yn ganolog gan y Llywodraeth amlygu pryderon pellach.
- Croesawu awydd yr Aelod Cabinet i gydweithio yn drawsadrannol i ymdrin â thlodi
- Bod angen diweddariad ar safbwynt Llywodraeth Cymru ar yr agenda Trechu Tlodi. Ymddengys nad yw bellach yn flaenoriaeth
- Bod angen mesur effaith prosiectau megis Cyfeirio at Ymarfer a Dementia Go wrth ystyried trosglwyddo Canolfannau Hamdden i gwmni newydd wedi ei reoli gan y Cyngor.

Mewn ymateb i sylw am y ddarpariaeth ddigartrefedd, amlygodd y Pennaeth Gwasanaeth bod gofynion ychwanegol gan y Llywodraeth a Phartneriaethau ar yr Uned am wybodaeth. Derbyniwyd y sylw bod angen adolygu'r broses o ystyried bydd cynnydd pellach a'r ofynion yr Uned o ganlyniad i newidiadau mewn budd-daliadau.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â Trechu Tlodi, nodwyd bod y Llywodraeth yn ail edrych ar y maes yn ei gyfanrwydd a bod y strategaethau yn cael eu hadolygu. Awgrymwyd y byddai cyhoeddiad gan y Llywodraeth yn Nhachwedd 2017.

Mewn ymateb i sylw am y prosiectau Cyfeirio at Ymarfer a Dementia Go, nodwyd bod y prosiectau hyn yn bwysig iawn a bod cynnydd yn y galw. Adroddwyd bod data yn cael ei gasglu er mwyn mesur effaith. Amlygwyd bod y gwasanaeth yn cydweithio drwy'r Adrannau, ond bod angen dwyn perswâd ar y Gwasanaeth Iechyd i gyfrannu. Derbyniwyd y sylw nad oedd y prosiectau o dan sgôp Canolfannau Hamdden. Ategwyd bod yr arian sydd yn cefnogi Dementia Go yn dod i ben ac awgrymwyd yr angen i gynnal trafodaeth gyda Llywodraeth Cymru i herio rheolau defnydd arian grant ICP.

## 7. DARPARU CYFLEUSTERAU HAMDDEN – SEFYDLU CWMNI WEDI EI REOLI GAN Y CYNGOR

Cyflwynwyd yr eitem gan y Cyng. Craig ab Iago

**PENDERFYNWYD**

- Argymell i'r Cyngor Llawn gymeradwyo'r achos busnes ar gyfer sefydlu Cwmni a Reolir gan Gyngor Gwynedd i ymgymryd â darpariaeth cyfleusterau hamdden.
- Argymell i'r Cyngor Llawn awdurdodi sefydlu Cwmni wedi ei reoli gan Gyngor Gwynedd yn unol â'r ffurf sy'n cael ei amlinellu o fewn yr achos fusnes er darparu cyfleusterau hamdden, gan dynnu sylw at sylwadau ac ystyriaethau Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi a gynhaliwyd 26.9.17
- Cymeradwyo'r achos busnes i gytuno i ryddhau cyllid unwaith ac am byth o £165k o'r Gronfa Trawsnewid i sefydlu'r cwmni.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd adroddiad i amlinellu sail dros sefydlu Cwmni wedi ei reoli gan y Cyngor i ddarparu cyfleusterau hamdden o fewn y Sir. Ategwyd y byddai hyn yn gyfle i gyflawni arbedion effeithlonrwydd heb gael effaith ar bobl Gwynedd. Adnabuwyd nifer o opsiynau posib a derbyniwyd cyngor cyfreithiol ar y modelau ar sail y risgiau gweithredol cysylltiedig. Nodwyd y byddai sefydlu cwmni newydd wedi ei reoli gan y Cyngor yn sicrhau parhad i'r gwasanaeth presennol ac yn gwireddu gofynion yr arbediad yn llawn.

Tynnwyd sylw at y tabl yn yr adroddiad oedd yn crynhoi gwerthusiad yr opsiynau ac er yr ymddengys nad creu cwmni wedi ei reoli oedd y gorau, dyma'r un oedd yn gwarchod y risgiau diwylliannol, yng nghyswllt yr Iaith Cymraeg ac egwyddorion eraill y Cyngor. Pwysleisiwyd na fyddai'r gwasanaeth yn edrych yn wahanol i ddefnyddwyr a staff - efallai y byddai yn well.

Tynnwyd sylw at sylwadau'r Pwyllgor Craffu Economi ac Addysg (26.9.17) a ddosbarthwyd yn y cyfarfod. Nodwyd bod y Pwyllgor Craffu yn argymell opsiwn 6 fel cyfeiriad ac yn pwysleisio yn glir bod dewis yr Arweinyddiaeth gywir yn allweddol i lwyddiant y cwmni. Nodwyd hefyd yr angen am graffu pellach wrth i'r gwaith ddatblygu.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth:

- Bod y cam yn un rhesymegol a synhwyrol
- Bod gan y Cyngor fwy o reolaeth dros y gwasanaethau hamdden yn hytrach na defnyddio cwmni preifat (er y byddai cwmni preifat yn debygol o sgorio yn uwch yng nghyd-destun arbedion)
- Bod angen sicrhau bod Bwrdd y cwmni yn ymddwyn fel Bwrdd ac nid Pwyllgor gan sicrhau cefnogaeth iddynt.
- Bod angen canmol yr adran am gyrraedd yr arbediad yn llawn

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â phroses sgorio cwmni allanol a'u gallu i gynnig arbedion pellach, nodwyd bod angen ystyried cyfraniadau pensiwn ac amodau gwaith fyddai yn debygol o fod yn wahanol.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ar broses o hysbysebu swyddi, nodwyd bod opsiwn i'r Cyngor benodi Arweinydd fyddai yn trosglwyddo i'r cwmni newydd, neu sefydlu cwmni yn gyntaf a chaniatáu i Fwrdd y cwmni wneud y penodiad. Pwysleisiwyd eto bod penodi arweinydd effeithiol yn hanfodol. Ategwyd nad oedd cyfansoddiad y Bwrdd wedi ei benderfynu

## 8. BWLETIN PERFFORMIAD AWDURDOD LLEOL 2016/17

Cyflwynwyd yr eitem gan y Cyng. Dyfrig Siencyn

**PENDERFYNWYD**

- Derbyn a nodi'r wybodaeth yn y Bwletin Perfformiad a sicrhau y bydd aelodau Cabinet yn:
  Bodloni eu hunain fod camau yn eu lle er mwyn gwella'r sefyllfa gan roi sylw i'r mesurau sy'n ymddangos yn Nhabl 1: Crynodeb perfformiad mesurau cenedlaethol Gwynedd 2016/17 (yn yr adroddiad) yn y cylch nesaf o gyfarfodydd herio perfformiad y cynhelir ym mis Tachwedd.
  Adrodd yn ôl ar unrhyw sylwadau sy'n crynhoi'r cyd-destun perfformiad ac unrhyw gamau ar gyfer gwella sydd wedi eu cytuno fel rhan o adroddiadau perfformiad Aelodau Unigol yn y cylch adrodd nesaf ym mis Ionawr.

**TRAFODAETH**

Adroddwyd bod Uned Data Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Bwletin Perfformiad ar gyfer Awdurdodau Lleol Cymru sydd yn cymharu set gyfyngedig o ddangosyddion perfformiad. Nodwyd bod y Bwletin diweddaraf wedi ei gyhoeddi ar y 13eg o Fedi yn cynnwys gwybodaeth ar berfformiad set o ddangosyddion perfformiad ar gyfer 2016 – 2017. Ategwyd bod yr adroddiad yn un cadarnhaol o safbwynt Gwynedd

Amlygwyd nad oedd rhai o'r mesurau oedd yn cael eu hystyried gan y gwasanaethau yn rhai oedd yn cynrychioli blaenoriaethau Cyngor Gwynedd ac nad oeddynt yn mesur yr hyn sydd yn bwysig i bobl Gwynedd. Nodwyd hefyd bod gan y Gwasanaethau eu trefniadau rheoli a mesur perfformiad eu hunain.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth
- Cais i'r Aelodau Cabinet dynnu sylw at y materion sydd angen sylw yn y cylch nesaf o gyfarfodydd herio perfformiad

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â chyfleu i'r Llywodraeth annilysrwydd rhai o'r mesurau i Wynedd, nodwyd bod rhaid i Wynedd ddewis mesurau ar gyfer pobl Gwynedd a cytunwyd bod angen adolygu rhai mesurau hanesyddol y Llywodraeth.

## 9. CYNLLUN BUSNES PROSIECTAU HUNAN-WASANAETH

Cyflwynwyd yr eitem gan y Cyng. Mair Rowlands

**PENDERFYNWYD**

Cymeradwyo Cynllun Busnes y Prosiect Hunan-wasanaeth a rhyddhau cyllid o £104,794 o'r gronfa Trawsffurfio ar gyfer cwblhau'r gwaith.

**TRAFODAETH**

Adroddwyd bod y Prosiect Hunan Wasanaeth yn un o flaenoriaethau'r Cyngor mewn ymateb i ddisgwyliadau cwsmeriaid sydd yn cynyddu'n barhaus. Bydd yr adnodd Hunan Wasanaeth yn galluogi i'r cyhoedd gael mynediad at wasanaeth neu wybodaeth ar adegau sydd yn gyfleus iddynt hwy.

Nodwyd bod y cynllun yn un cyffrous a bod y Cynllun Busnes yn cyfarch yr angen gyda rhai elfennau eisoes wedi eu datblygu. Y cam nesaf fydd hyrwyddo a marchnata'r ddarpariaeth yn dilyn lansio'r pecyn cychwynnol yn gyhoeddus yn Nhachwedd 2017. Byddai ychwanegiad i'r ddarpariaeth mewn amser

Diolchwyd i'r holl swyddogion oedd ynghlwm a'r gwaith o sefydlu'r broses hunanwasanaeth

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth
- Croesawu'r cynllun – y gwasanaeth yn debygol o hwyluso'r broses i'r defnyddwyr
- Bod pobl erbyn hyn yn disgwyl y math yma o wasanaeth gyda'r arferiad o ddefnyddio technoleg gwybodaeth yn cynyddu

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â'r angen i greu cyfrif, nodwyd bod angen annog pobl i greu cyfrif er mwyn iddynt ddilyn datblygiadau/ymholiadau. Ategwyd na fyddai angen creu cyfrif i ddefnyddio App Gwynedd sydd yn rhan o'r gwasanaeth.

## 10. GWIREDDU'R CYNLLUN CLWB BRECWAST

Cyflwynwyd yr eitem gan y Cyng. Gareth Thomas

**PENDERFYNWYD**

Codi ffi o £0.80 am yr elfen gofal plant cyn y clwb brecwast, gan roi disgownt i deuluoedd gyda 3 neu ragor o blant gyda'r trefniadau hynny i gychwyn ar y 6 Tachwedd 2017.

**TRAFODAETH**

Yn dilyn penderfyniad y Cyngor Llawn (3.3.16) i dorri £100,000 oddi ar gyllideb Cynllun Clwb Brecwast mewn ymateb i doriadau ariannol gan y Llywodraeth, ystyriwyd dau opsiwn i gyfarch y toriad yma. Adroddwyd bod 75 o ysgolion cynradd Gwynedd yn cynnig gofal plant cyn-ysgol gyda'r Cynllun Brecwast am Ddim Llywodraeth Cymru. Pwysleisiwyd na fyddai'r bwriad yn effeithio dim ar y ddarpariaeth bresennol. Yr opsiynau oedd codi ffi am yr amser gwarchod cyn derbyn brecwast neu beidio derbyn plant cyn brecwast.

Tynnwyd sylw at ganlyniadau'r ymgynghoriad ynghyd ag amlinellu sut yr ystyriwyd y ffi o £0.80. Ategwyd hefyd bod dyletswydd statudol i gynnig brecwast am ddim.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth:
- Bod y bwriad i'w groesawu, ond angen cadw llygad ar y cynllun i sicrhau ei fod yn ymateb i'r angen ac i'r nifer fydd yn ei ddefnyddio.
- Bod cyfanswm y nifer sydd wedi ymateb i'r ymgynghoriad yn galonogol
- Bod y datrysiad yn un da
- Croesawu disgownt i deuluoedd gyda 3 neu fwy

- Bod yr argymhelliad yn cyd-fynd a’r hyn sydd wedi ei nodi yn yr ymgynghoriad. Dengys bod y gwaith ymchwil cefndirol a’r ymgynghori sylweddol cyn cyflwyno'r adroddiad wedi sicrhau bod y cynllun ar y trywydd cywir.

## 11. ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET ADDYSG

Cyflwynwyd yr eitem gan y Cyng. Gareth Thomas

**PENDERFYNWYD**

Derbyn a nodi’r wybodaeth yn yr adroddiad.

**TRAFODAETH**

Amlygwyd mai pwrpas yr adroddiad oedd cyflwyno gwybodaeth gyfredol ar yr hyn oedd wedi ei gyflawni yn y maes gan amlinellu’r diweddaraf ar y materion hynny sydd yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Strategol, y mesurau perfformiad a’r diweddaraf o ran cynllun arbedion a thoriadau.

Adroddwyd bod cynnydd da wedi ei wneud ar y rhan fwyaf o brosiectau’r Cynllun Strategol a bod rhai meysydd angen sylw arbennig gan yr Adran er mwyn gwella perfformiad. Y prif flaenoriaethau ar gyfer y misoedd nesaf fydd codi safonau'r cyfnod sylfaen, gwella safonau cyfnod allweddol 4 mewn pynciau penodol a gwella ansawdd y ddarpariaeth ôl-16.

Cyfeiriwyd at lwyddiant y Bwrdd Ansawdd Sirol (BAS) sydd yn monitro ansawdd a pherfformiadau ysgolion ar bob lefel. Nodwyd bod y BAS yn profi ei werth yn gynyddol. Tynnwyd sylw hefyd at waith pellach sydd angen ei gwblhau i finiogi’r prosiect Gwella Arweinyddiaeth a Rheolaeth. Nodwyd bod cais i’r Adran ystyried rhaglen hyfforddiant cynhwysfawr sydd yn mapio'r hyn sydd yn cael ei gynnig gan Lywodraeth Cymru, GwE a Chyngor Gwynedd fel bod hyfforddiant priodol ar gyfer arweinwyr.

Rhoddwyd diweddariad ar ddatblygiadau'r Rhaglen Rhwydwaith o Ysgolion Hyfyw i’r Dyfodol gan nodi bod cyfarfod yn cael ei gynnal yn Y Bala 4.10.17 i drafod statws yr ysgol (y gwaith adeiladau a’r gwariant yn parhau yn unol â’r amserlen). Tynnwyd sylw hefyd at waith y ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad sydd yn cael ei weithredu ar y cyd gyda Môn.

Nodwyd mai anodd yw mesur canlyniadau arholiadau TGAU 2017 yn erbyn 2016 oherwydd y newidiadau i’r drefn arholi a’r fanyleb. Nodwyd er hynny, bod modd cymharu â lefel rhanbarth. Ategwyd y gall yr ystadegau newid eto o ganlyniad i rai papurau yn cael eu hail farcio.

Adroddwyd mai presenoldeb plant Uwchradd Gwynedd yw y gorau yng Nghymru.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â’r BAS amlygwyd mai aelodau yw Swyddogion Ardal Addysg y Cyngor ac Ymgynghorwr Her GwE, ac yn atebol i’r Pennaeth Addysg a’r Aelod Cabinet. Nodwyd bod cydweithio da a’r berthynas wedi datblygu. Er hynny, heriwyd y ffaith bod un ysgol wedi disgyn i fesurau arbennig yn ddiweddar a pham nad oedd hyn wedi dod i sylw y BAS. Nodwyd bod pob ymgais yn cael ei wneud i adfer y sefyllfa yma.

## 12. CAU ALLAN Y WASG A’R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 11, Rhan 4, Atodlen 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972.Gofynnwyd i gadw'r eitem yn eithriedig o dan yr adran isod:**

**14.10.2 Gwybodaeth Eithriedig – Disgresiwn i Wahardd y Cyhoedd**
**(a) Ceir gwahardd y cyhoedd o gyfarfodydd pryd bynnag y bo'n debygol, oherwydd natur y busnes sydd i'w drafod, neu natur y trafodion, y byddai gwybodaeth gyfrinachol yn cael ei ddatgelu. Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â manylion cytundeb a threfniadau gwerthiant nad yw'n hysbys ar hyn o bryd. Mae'r wybodaeth yn cael ei ystyried yn eithriedig yn unol â chategori 14, gan ei fod yn wybodaeth sy'n ymwneud â materion ariannol neu fusnes unigolyn penodol.**

## 13. TIR YN LLANRUG

Cyflwynwyd yr eitem gan y Cyng. Gareth Thomas
Croesawyd yr Aelod Lleol Llanrug i'r cyfarfod – y Cynghorydd Charles Jones.

**PENDERFYNWYD**

Cadarnhawyd y penderfyniad a wnaethpwyd ar Fawrth 28 2017 i ddirprwyo hawl i'r Pennaeth Rheoleiddio mewn ymgynghoriad a'r Pennaeth Addysg i brynu llain o dir yn Llanrug ac yn sgil y pryniant, rheolaeth briodol o'r safle, yn unol ar adroddiad

**TRAFODAETH**

Yn dilyn cais am wybodaeth ychwanegol am niferoedd ysgolion dalgylch Brynrefail gohiriwyd y penderfyniad ar y mater yng nghyfarfod y Cabinet 19.9.17. Bellach, gyda'r wybodaeth am niferoedd mewn dosbarth wedi ei rannu gyda'r Aelodau roedd modd ail afael ar y drafodaeth. Roedd y tir yn parhau ar gael i'w brynu (rhag ofn y byddai ei angen yn y dyfodol agos i'w ddatblygu). Nodwyd mai cyfle unwaith ac am byth oedd yma i brynu'r tir ar gyfer gwella rhai o adnoddau'r ysgol.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth:

- Bod angen buddsoddiad tymor hir i uwchraddio'r safle gan nad oed modd adeiladu ysgol o'r newydd
- Bod yr adeilad presennol yn is-safonol ac felly angen buddsoddiad tymor hir
- Bod y safle presennol yn gyfyng iawn – iard yr ysgol yn annigonol ar gyfer nifer y plant
- Nad oedd capasiti yn fater oedd angen ystyriaeth – ansawdd yr adeiladau oedd y broblem.

- Bod y safle ddim yn ddigonol petai angen ad-drefnu darpariaeth y dalgylch
- Nad oedd y dystiolaeth yn ddigonol
- Bod costau refeniw cysylltiedig ynghyd a chostau cynnal a chadw'r tir
- Mai diwallu un o'r anghenion yr ysgol fyddai prynu'r tir
- Bod y pris yn uchel

Gwnaed sylw bod angen pwysleisio nad oedd prynu'r tir yn codi gobeithion trigolion lleol ac mai ymateb i gyfle yn unig oedd yma.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h.  a daeth i ben am 3.45y.h

**CADEIRYDD**